***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ATODLEN 11. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 11 E+W

(a gyflwynir gan adran 136)

## PWYLLGORAU PONTIO CYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

### **RHAN 1** E+W

### CYNGHORAU SY'N UNO

*Pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno*

1 (1) Rhaid i gynghorau sy'n uno sefydlu pwyllgor pontio yn union ar ôl gwneud cais i uno.

(2) Mae'r cyfeiriadau at bwyllgor pontio yn y Rhan hon o'r Atodlen hon yn gyfeiriadau at bwyllgor pontio a sefydlir o dan is-baragraff (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 11 para. 1 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

*Aelodaeth pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno*

2 (1) Rhaid i bwyllgor pontio gynnwys nifer cyfartal o aelodau, heb fod yn llai na 5, o bob un o'r cynghorau sy'n uno.

(2) Rhaid i aelodau cyngor sy'n uno sydd i fod yn aelodau o'r pwyllgor pontio gael eu penodi gan y cyngor sy'n uno.

(3) Nifer aelodau'r pwyllgor sydd i'w penodi gan bob un o'r cynghorau sy'n uno yw'r nifer y cytunir arno gan y cynghorau sy'n uno neu, os na cheir cytundeb, y nifer y penderfyna Gweinidogion Cymru arno.

(4) Rhaid i brif aelod gweithrediaeth y cyngor sy'n uno fod yn un o aelodau'r pwyllgor a benodir gan y cyngor sy'n uno.

(5) Os nad yw eisoes wedi ei benodi o dan is-baragraff (4), rhaid i'r aelod gweithrediaeth yn y cyngor sy'n uno sy'n gyfrifol am gyllid gael ei benodi'n aelod o'r pwyllgor yn ogystal.

(6) Caiff pwyllgor pontio gyfethol personau ychwanegol i wasanaethu fel aelodau o'r pwyllgor ond ni chaiff y rhain bleidleisio.

(7) Mae pwyllgor pontio i'w drin at ddibenion paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42) (cydbwysedd gwleidyddol ar bwyllgorau awdurdodau lleol) fel corff sy'n dod o fewn paragraff 2 o'r Atodlen honno.

(8) Yn y paragraff hwn ystyr "prif aelod gweithrediaeth"—

(a) yn achos cyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet, yw'r arweinydd gweithrediaeth;

(b) yn achos cyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, yw'r maer etholedig.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ATODLEN 11. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 11 para. 2 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

*Swyddogaethau pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy’n uno*

3 (1) Rhaid i bwyllgor pontio ddarparu cyngor ac argymhellion i’r cynghorau sy’n uno, ac i’r cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd, ynglŷn ag—

(a) hwyluso trosglwyddo swyddogaethau, staff a hawliau ac atebolrwyddau eiddo mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon o’r cynghorau sy’n uno i’r prif gyngor newydd,

(b) sicrhau bod y prif gyngor newydd a’i staff mewn sefyllfa i gyflawni swyddogaethau’r prif gyngor newydd yn effeithiol o’r adeg pan fydd yn eu hysgwyddo, ac

(c) unrhyw ddibenion eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd i’r pwyllgor pontio.

(2) Rhaid i bwyllgor pontio hefyd roi cyngor ag argymhellion i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd i’r pwyllgor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 11 para. 3 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

## RHAN 2 E+W

CYNGHORAU SY’N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

*Pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy’n cael eu hailstrwythuro*

4 (1) Ar ôl rhoi hysbysiad fel a ddisgrifir yn adran 129(6), caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau gyngor neu ragor sy’n cael eu hailstrwythuro i sefydlu pwyllgor pontio.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn cyfarwyddyd o dan is-baragraff (1) swyddogaethau ac aelodaeth pwyllgor pontio a sefydlir yn unol â’r cyfarwyddyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 11 para. 4 mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(7)**

**I5** Atod. 11 para. 4 mewn grym ar 1.4.2021 gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ATODLEN 11. (See end of Document for details)*

## RHAN 3 E+W

### PWYLLGORAU PONTIO CYNGHORAU SY'N UNO A CHYNGHORAU SY'N CAEL EU HAILSTRWYTHURO

*Is-bwyllgorau i bwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro*

5 (1) Caiff pwyllgor pontio sefydlu un is-bwyllgor neu ragor.

(2) Swyddogaeth is-bwyllgor i bwyllgor pontio yw cynghori'r pwyllgor pontio ar faterion a atgyfeirir i'r is-bwyllgor gan y pwyllgor pontio.

(3) Mae aelodaeth is-bwyllgor i bwyllgor pontio i'w bennu gan y pwyllgor pontio.

(4) Os yw pwyllgor pontio yn penodi person nad yw'n aelod o un o'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro i fod yn aelod o is-bwyllgor, ni chaiff y person hwnnw bleidleisio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 11 para. 5 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)**(2)(b)(ii)

**I7** Atod. 11 para. 5 mewn grym ar 1.4.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

*Darparu cyllid, cyfleusterau a gwybodaeth etc. i bwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro*

6 (1) Rhaid i'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro dalu costau pwyllgor pontio yn ôl y cyfrannau y cytunant arnynt neu, os na cheir cytundeb, y cyfrannau a ddyfernir gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro ddarparu i bwyllgor pontio y cyfleusterau a'r adnoddau (gan gynnwys staff), y wybodaeth a'r dogfennau y gwna'r pwyllgor pontio (neu unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor pontio) gais rhesymol amdanynt er mwyn ei alluogi i arfer ei swyddogaethau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Atod. 11 para. 6 mewn grym ar 21.1.2021 at ddibenion penodedig, gweler **a. 175(1)(f)**(2)(b)(ii)

**I9** Atod. 11 para. 6 mewn grym ar 1.4.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

*Pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro: darpariaeth bellach*

7 (1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo pwyllgor pontio i arfer ei swyddogaethau yn unol â'r cyfarwyddyd.

(2) Ni chaiff pwyllgor llywodraethu ac archwilio na phwyllgor trosolwg a chraffu cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro arfer unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir gan bwyllgor pontio; ac at y diben hwn—

mae i "pwyllgor llywodraethu ac archwilio" ("governance and audit committee") yr ystyr a roddir gan adran 81 o Fesur 2011;

mae i "pwyllgor trosolwg a chraffu" yr ystyr a roddir i "overview and scrutiny committee" gan adran 21(1) o Ddeddf 2000.

(3) Yn y Rhan hon o'r Atodlen hon—

(a) ystyr "pwyllgor pontio" yw pwyllgor pontio a sefydlir yn unol â pharagraff 1 neu yn rhinwedd paragraff 4;

(b) mae cyfeiriad at gyngor sy'n uno mewn perthynas â phwyllgor pontio yn gyfeiriad at gyngor sy'n uno sy'n sefydlu'r pwyllgor pontio;

(c) mae cyfeiriad at gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro mewn perthynas â phwyllgor pontio yn gyfeiriad at gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro sy'n sefydlu'r pwyllgor pontio.

[F1](4) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Atod. 11 para. 7(4) wedi ei hepgor (1.4.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(7), **Atod. 10 para. 10**; O.S. 2021/297, ergl. 2(h)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Atod. 11 para. 7(1)(3)(b)(4) mewn grym ar 21.1.2021, gweler **a. 175(1)(f)**

**I11** Atod. 11 para. 7(2)(3)(a) mewn grym ar 1.4.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

**I12** Atod. 11 para. 7(3)(c) mewn grym ar 1.4.2021 gan O.S. 2021/297, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ATODLEN 11.